# Trosolwg

## Cyfeiriadau Beiblaidd

**Salm 24:1–2 (BCND)**
Eiddo'r Arglwydd yw'r ddaear a'i llawnder, y byd a'r rhai sy'n byw ynddo; oherwydd ef a'i sylfaenodd ar y moroedd a'i sefydlu ar yr afonydd.

**Mathew 22:37–39 (BCND)**
Dywedodd Iesu wrtho, 'Câr yr Arglwydd dy Dduw â'th holl galon ac â'th holl enaid ac â'th holl feddwl.' Dyma'r gorchymyn cyntaf a'r pwysicaf. Ac y mae'r ail yn debyg iddo: 'Câr dy gymydog fel ti dy hun.'

**Genesis 1:31 (BCND)**
Gwelodd Duw y cwbl a wnaeth, ac yr oedd yn dda iawn.

## Cyflwyniad

Rydyn ni'n addoli Duw sy'n caru'r Ddaear a greodd ac sy'n ein galw i ofalu amdani. Mae gwneud hynny yn rhan o'n haddoliad a'n tystiolaeth wrth i ni ymateb i greadigaeth sy'n ochneidio (Rhufeiniaid 8:22). Daw'r eglwysi sy'n rhan o Eco Church o amrywiaeth eang o draddodiadau sydd, er eu bod yn cyfrannu cyfoeth ac amrywiaeth aruthrol, yn creu her o ran llunio un arolwg sy'n cwmpasu iaith ac arferion pob traddodiad – felly gofynnwn i chi ddehongli'r cwestiynau yn eich cyd-destun penodol chi. Ac efallai gallech chi ystyried rhoi cynnig ar rywbeth newydd o draddodiad arall.

Mae addoli ar y cyd yn rhan allweddol o'r rhan fwyaf o eglwysi. Mae llawer o'r cwestiynau yn y categori hwn o'r arolwg yn ymwneud ag agweddau ar addoli ar y cyd, yn cynnwys gwasanaethau arbennig, cerddoriaeth, pregethu a gweddi. Gall fformat yr addysgu yn ein heglwysi fod ar sawl ffurf, megis pregethu yn ystod addoliad ar y cyd, grwpiau bach, cyrsiau paratoi, a gweithio gyda phlant a phobl ifanc. Mae'r adran hon yn gofyn i eglwysi ystyried pwy ydym ni ac eiddo i bwy ydym ni, a'n lle priodol fel rhan o'r greadigaeth, nid ar wahân iddi, ac yn sicr nid uwch ei phen.

## Terminoleg

Er cysondeb, mae'r arolwg yn defnyddio dwy brif ffordd o gyfeirio at gonsyrn a gofal am y Ddaear. Mae cyfeirio at 'y greadigaeth' a 'gofal am y cread' yn amlygu ein rhyngddibyniaeth ar y cartref cyffredin a roddodd Duw i ni, a'n cyfrifoldeb amdano. Mae cyfeirio at argyfyngau'r hinsawdd a byd natur yn arwydd ein bod yn cydnabod bod rhaid gweithredu ar frys. Ar ben hynny, defnyddir y term 'materion amgylcheddol' i gyfeirio at y sbectrwm eang o broblemau rydyn ni'n eu hwynebu'n lleol ac yn fyd-eang.

## Ymrwymiad a chysylltiad â'ch Polisi Amgylcheddol

Ar ddechrau pob categori mae'r arolwg Eco Eglwys yn gofyn i'ch eglwys gydnabod argyfyngau'r hinsawdd a byd natur a dangos ymrwymiad. Gall gweledigaeth neu ddatganiad cenhadaeth fod yn fan gwych i gydnabod ein rôl fel Cristnogion i ofalu am y Ddaear a'i gwarchod. Mae Polisi Amgylcheddol yn ffordd wych i'ch eglwys gyflwyno'r hyn rydych chi'n ei gydnabod ac amlinellu'r ymrwymiadau rydych chi'n eu gwneud.

Edrychwch ar ein taflen wybodaeth gyfatebol ar Greu Polisi Amgylcheddol a chynllun gweithredu Sero Net, a'r polisïau enghreifftiol i'w golygu y gallwch eu haddasu ar gyfer eich eglwys.

Mae Cwestiwn 1 y categori Addoliad ac Addysgu yn nodi: 'Mae ein heglwys yn cydnabod ac yn addysgu bod gofal am y cread a gweithredu i roi sylw i argyfyngau'r hinsawdd a byd natur yn rhan annatod o'r ffydd Gristnogol ac addoliad a bywyd Cristnogol, ac mae wedi gwneud ymrwymiad ffurfiol i gynllun dyfarniadau Eco Eglwys A Rocha UK.'

Mae ymrwymiad eglwys i greu cysylltiad â'r cread, a gweithredu er mwyn helpu i'w warchod, yn hanfodol. Bydd ffurf yr ymrwymiad hwn yn (gallu) cael ei ddehongli mewn gwahanol ffyrdd gan wahanol eglwysi, gan y bydd 'ffurfiol' yn edrych yn wahanol ym mhob lleoliad. Efallai y byddwch wedi cytuno mewn cyfarfod (e.e. Cyngor Eglwysi Plwyfol, Cwrdd Eglwys) i ymgysylltu ag Eco Church ac ymdrechu i gyflawni'r dyfarniadau. Elfen bwysig o wneud ymrwymiad yw datgan hynny'n eglur fel rhan o hunaniaeth yr eglwys. Er enghraifft, gallech rannu'r datganiad hwn o fewn eich eglwys, yn eich cofnodion, neu ar eich gwefan:

'Rydym yn cydnabod ac yn addysgu bod gofal am y cread a gweithredu i roi sylw i argyfyngau'r hinsawdd a byd natur yn rhan annatod o'r ffydd Gristnogol ac addoliad a bywyd Cristnogol. Rydym wedi ymrwymo i ymateb i hyn trwy fod yn rhan o gynllun dyfarniadau Eco Eglwys A Rocha UK.'

Ar sail y datganiad hwn, gallwch ddatblygu eich Polisi Amgylcheddol.

## Themâu o ran Addoliad ac Addysgu

Mae'r categori hwn yn cwmpasu'r themâu canlynol:

**Thema 1: Addoliad a Gweddi**

- Agweddau ar addoliad: galarnadu, pregethu, gweddïo/eiriol
- Ble a sut rydyn ni'n addoli: yn yr awyr agored, modelau arloesol
- Adnoddau addoliad: blodau, canhwyllau, gwin, etc.

**Thema 2: Pobl**

- Paratoi a hyfforddi arweinwyr
- Gofal bugeiliol sy'n ymateb i bryderon amgylcheddol
- Ategu'r weinidogaeth amgylcheddol

**Thema 3: Addysgu a Bod yn Ddisgyblion**

- Gofal am y cread yn rhan o fedyddio/gonffirmasiwn/baratoi i fod yn aelod
- Gofal am y cread yn rhan o waith plant/ieuenctid/ysgolion
- Gofal am y cread yn rhan o gyrsiau ac astudiaethau grwpiau cartref
- Siaradwyr amgylcheddol

## Sylwadau ychwanegol

Ar ddiwedd pob categori yn yr arolwg mae cyfle i chi nodi sylwadau ychwanegol. Gallwch ddefnyddio'r lle yma i ymhelaethu ar unrhyw rai o'ch atebion, gan gynnwys lle gwnaethoch chi roi tic wrth 'arall', ac unrhyw beth arall sy'n gysylltiedig â'r categori hwn yn yr arolwg.

## Adnoddau a gwybodaeth

Cewch hyd i'r holl adnoddau Eco Church ar ein gwefan, yn ogystal ag adnoddau sy'n ymwneud yn benodol â'r categori Addoliad ac Addysgu.

## Gwasanaethau a pharatoi addoliad

A Rocha International
Adnoddau gofal am y cread ar gyfer eglwysi, addysgwyr ac unigolion, gyda gweddïau, myfyrdodau, cyflwyniadau ac astudiaethau Beiblaidd.

A Rocha UK – Connect with God's creation over Lent
Syniadau ar gyfer gweithgareddau'r Grawys.

Choose Life
Mae'r wefan hon yn cynnwys litwrgïau hawdd eu hargraffu i chi eu haddasu a'u defnyddio yn eich cyd-destun eich hun.

Sul yr Hinsawdd
Gwaddol o adnoddau ar gyfer gwasanaethau eglwysig ac addoliad, yn dilyn ymlaen o'r paratoadau ar gyfer COP26 yn 2021.

Cristion Gwyrdd / Green Christian
Corff eciwmenaidd, sy'n cynnwys ymhlith ei adnoddau helaeth adran ar 'Ddeunyddiau addoliad' sy'n cynnwys canllawiau gweddi, pregethau, dramâu, emynau a mwy.

Greening the Lectionary
Gwefan yn llawn adnoddau ar gyfer pregethu trwy ddarlleniadur yr Eglwys yng Nghymru yng nghyd-destun argyfyngau presennol yr hinsawdd ac ecoleg.

Plastig, pecynnu a gwastraff wrth drin blodau
Diben y canllaw hwn yw helpu unrhyw un sy'n gweithio gyda blodau i ddod yn fwy ymwybodol o'r materion sy'n ymwneud â phlastig, pecynnu a gwastraff, a gwneud dewisiadau gwell. Mae'n ychwanegiad gwerthfawr at yr adnoddau gan Sustainable Church Flowers.

Byddin yr Iachawdwriaeth / Salvation Army
Adnoddau i'ch cefnogi wrth i chi ofalu am y cread.

Amser i'r Cread
Adnoddau litwrgaidd ar gyfer y Cread a'r Amgylchedd.

The London Institute for Contemporary Christianity (LICC)
Adnoddau i'ch helpu i archwilio testun gofal beunyddiol am y ddaear gyda'ch grŵp bach.

Yr Eglwys Fethodistaidd
Adnoddau diwinyddol, deunyddiau addoliad a gweddïau mewn ymateb i'r newid yn yr hinsawdd.

## Cerddoriaeth

Cri'r Ddaear / Cry of the Earth – Esgobaeth Caergaint

Darn o gerddoriaeth am yr amgylchedd newidiol a phawb a phopeth sy'n byw ynddo.

Doxecology – Resound Worship

Albwm o ganeuon addoli cyfoes sy'n cyfuno moliant ('doxology') ac ecoleg – felly 'doxecology'.

For the Warming of the Earth gan Mark Porter

Yn y llyfr hwn, mae Mark Porter yn defnyddio mwy na 40 o gyfweliadau gydag actifyddion, awduron caneuon, arweinwyr Cristnogol a cherddorion i archwilio ystyr datblygu arferion cerddorol Cristnogol newydd ar gyfer cyfnod o argyfwng ecolegol.

'Song of The Coat of Hopes'

Cân i gyd-fynd â'r Gôt o Obeithion – dilledyn clytwaith sy'n parhau ar daith ac yn adrodd hanesion.

Song of the Wheel

Llyfr Caneuon a Chrynoddisg o siantiau ar gyfer Blwyddyn yr Eglwys Goedwig gan Alison Eve.

## Amser i'r Cread

Mae Tymor y Cread wedi'i neilltuo i sôn am Dduw fel Crëwr a Chynhaliwr pob bywyd. Dyma rai syniadau i annog teulu eich eglwys i fentro allan yn ystod tymor y cread, a chreu cysylltiad â Duw trwy fyd natur.

A Rocha UK

Awgrymiadau A Rocha UK ar gyfer gweddïau, addoliad a threfniadau gwasanaeth yn ystod Tymor y Cread.

Taith gerdded a gweddi

Arhoswch am ychydig a gweddïo. Defnyddiwch eich holl synhwyrau i nesáu at y Crëwr mewn gweithred o addoliad, gweddi a moliant.

Tymor y Cread

Mae Tymor y Cread yn adeg i adnewyddu ein perthynas â'n Crëwr a'r cread cyfan trwy ddathlu, trawsnewid ac ymrwymo gyda'n gilydd. Yn ystod Tymor y Cread, ymunwn â'n chwiorydd a'n brodyr yn y teulu eciwmenaidd mewn gweddi a gweithredu dros ein cartref cyffredin.

Step outside and connect with God through nature

Adnodd gan A Rocha UK i annog teulu eich eglwys i gamu allan a chreu cysylltiad â byd natur.

## Gofal am y Cread wrth baratoi ar gyfer bedydd/conffirmasiwn/dod yn aelod o eglwys

Litwrgi bedydd yr Eglwys yng Nghymru
Litwrgi bedydd Esgobaeth Rhydychen

## Galarnadu, galar ac eco-bryder

Climate Grief and Pastoral Care: Processing Grief for the Planet – cynhaliwyd gan A Rocha UK. Adnodd a luniwyd gan staff A Rocha UK ar ofal bugeiliol a galar ynghylch yr hinsawdd.

Borrowed Time, adnodd i grwpiau bach gan Green Christian
Mae Dyfroedd Dyfnion / Deep Waters yn darparu fframwaith seiliedig ar ffydd lle mae modd mynegi pryderon ac ofnau ynghylch y newid yn yr hinsawdd a cholli bioamrywiaeth, a'u harchwilio ar y cyd.
Blog eco-bryder gan A Rocha International

Hefyd mae ein hadnodd cyfatebol ar gefnogaeth a hyfforddiant ar gael os hoffech ddysgu mwy am sut i gynorthwyo gydag eco-bryder. Cewch hyd i'r adnodd hwn yn y categori Addoliad ac Addysgu.